

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol (lle  
rhoddwyd rhybudd) Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr Practis  
Deintyddol West End,  
Porthmadog**

16 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.  
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

|    |                                           |    |
|----|-------------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                           | 2  |
| 2. | Cyd-destun.....                           | 3  |
| 3. | Crynodeb .....                            | 4  |
| 4. | Canfyddiadau .....                        | 6  |
|    | Ansawdd Profiad y Claf .....              | 6  |
|    | Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....  | 9  |
|    | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... | 15 |
| 5. | Y Camau Nesaf.....                        | 17 |
| 6. | Methodoleg .....                          | 18 |
|    | Atodiad A.....                            | 20 |

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol West End yn 15 Heol yr Wyddfa, Porthmadog, LL49 9BT, ar ddydd Mawrth, 16 Chwefror 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol West End yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol West End, Porthmadog, yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Gwynedd. Mae'r practis yn rhan o Grŵp Deintyddol West End, sef grŵp annibynnol a lleol o dri phractis deintyddol ar draws gogledd Cymru. Mae Practis Deintyddol West End, Porthmadog, yn darparu gwasanaethau deintyddol yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Practis Deintyddol West End yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd cysylltiol, rheolwr clinigol (sy'n gweithio ym mhob un o'r tri phractis), derbynnydd neilltuedig, nyrs ddeintyddol arweiniol, dwy nyrs ddeintyddol, a dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Mae hylenydd a therapydd sy'n gweithio'n rhan amser hefyd ar gael. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y cyfarwyddwr cyllid a gweithrediadau hefyd yn bresennol.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod Practis Deintyddol West End, Porthmadog, yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yn ymddangos bod y staff yn fodlon ar eu swyddogaethau a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau.
- Mae digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn ymddangos yn lân ac yn daclus.
- Mae'r cofnodion cleifion o safon uchel.
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Mae gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel.
- Cynhelir archwiliadau a chyfarfodydd staff yn rheolaidd a chânt eu defnyddio i wella arferion.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen i'r staff ddilyn hyfforddiant ar ddadheintio, ac ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Dylid cynnal asesiadau risg ar gyfer sylweddau peryglus er mwyn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r mesurau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith.
- Dylid sefydlu system effeithiol i sicrhau bod staff yn ymwybodol pan fydd dyddiad terfyn cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar fin cyrraedd.
- Dylid sicrhau bod holl gofnodion y cleifion yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i ysmegu, dewisiadau o ran triniaethau, caniatâd, a chynlluniau triniaeth.
- Dylid cynnal arfarniadau staff blynyddol a dylai rhaglen sefydlu gofnodedig fod ar waith.

- Mae angen adolygu nifer o bolisïau a sicrhau eu bod yn cynnwys mwy o fanylion, a dylid gwneud hyn i'r weithdrefn gwyno yn bendant.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd trwy holiadur ar-lein, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth. Roedd man aros dymunol ar gael gyda diodydd poeth ac oer, cylchgronau, a theledu oedd yn hysbysebu. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae hefyd. Fodd bynnag, prin iawn oedd y dystiolaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*'Wastad yn groesawgar iawn.'*

*'Weithiau mae'n rhaid aros, ond dim am amser afresymol.'*

*'Ers i'r practis gael ei adnewyddu, rwy'n teimlo mor hamddenol yn mynd at y deintydd, ond cyn hynny, byddwn wedi cael pwl o banig. Mae'r awyrgylch yn llawer mwy hamddenol ac mae'n braf cael cerddoriaeth yn chwarae.'*

### **Gofal gydag urddas**

Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso mawr gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio tuag at y cleifion. Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i amddiffyn preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys lle i gleifion gynnal sgysiau preifat gyda staff, a system i amddiffyn cyfrinachedd wrth ddelio â negeseuon ffôn gan gleifion. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn.

### **Gofal amserol**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Nododd tri chwarter y cleifion (allan o 22 ohonynt) a gwblhaodd holiaduron nad oeddent wedi profi unrhyw oediad o ran cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd tri chwarter y cleifion wrthym

hefyd eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd ar ffenestr y ddeintyddfa yn nodi'r rhif ffôn cyswllt mewn achos brys, ac roedd hwn hefyd ar neges beiriant ateb y practis.

### **Cadw'n iach**

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros ar y llawr isaf wedi'u hadnewyddu, ac fel argraff gyntaf, roedd yn olau, yn eang, ac yn atyniadol. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol o amgylch y mannau derbyn. Dywedodd y cyfarwyddwr gweithrediadau wrthym eu bod yn bwriadu cynnig sesiynau addysg ar iechyd y geg ar gyfer plant.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid cynnig deunydd hyrwyddo iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r mannau aros ar ffurf posterï a thaflenni.***

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol am eu triniaeth. Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu hysbysu o'r dewis o gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol, ac roedd dros hanner yr holiaduron wedi cael eu llenwi yn y Gymraeg. Roedd tystiolaeth o wybodaeth ac arwyddion yn Saesneg ac yn y Gymraeg.

### **Gofal unigol**

Dywedodd y staff wrthym yr atgoffwyd cleifion i roi adborth ar lafar ynglŷn â'u safbwyntiau ar y gwasanaeth, pan oeddent yn mynychu'r practis. Cafodd copi o'r holiadur ar-lein y gofynnir i gleifion ei gwblhau ei ddangos i ni hefyd, a dangosodd y rheolwr gweithrediadau gopi o'r wybodaeth a gasglwyd. Caiff sylwadau cleifion eu hadolygu a chymerir camau pan welir unrhyw dueddiadau. Roedd hyn yn dangos bod systemau ar waith er mwyn galluogi cleifion i roi adborth parhaus i'r practis.

Pan ofynnwyd i'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron sut oedd gwneud cwyn ynglŷn â'u gofal neu eu triniaeth, gwnaeth dwy ran o dair ohonynt nodi eu bod yn gwybod sut i wneud, a'u bod wedi gweld yr hysbysiad yn yr ystafell aros. Roedd gweithdrefn gwyno ar yr hysbysfwrdd, ond gwnaethom sylwi nad oedd y cyfnod cydnabod pryderon yn cydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella'). Nid oedd ychwaith yn cynnwys manylion cyswllt yr holl sefydliadau perthnasol y gallai cleifion gysylltu â nhw. Yn benodol, nid oedd yn nodi manylion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cleifion y GIG, na manylion AGIC ar gyfer cleifion preifat.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno fel a ganlyn:***

- ***Dylid sicrhau bod y cyfnod ymateb i gwynion yn cydffymfurfio â gofynion Gweithio i Wella a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.***
- ***Dylid cynnwys manylion yr holl sefydliadau perthnasol y gallai cleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys manylion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ac AGIC.***
- ***Dylid nodi'n glir y gweithdrefnau a'r sefydliadau perthnasol y gallai cleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.***

Roedd proses wedi'i hen sefydlu ar gyfer cofnodi unrhyw bryderon/cwynion a dderbyniwyd a sut y rhoddwyd sylw iddynt. Gwelsom mai dim ond dwy gŵyn a gafwyd am bractis Porthmadog. Er bod cwynion yn cael eu monitro ar-lein, nid oedd unrhyw dystiolaeth o ddadansoddi tueddiadau.

Roedd hysbysiadau yn y dderbynfa i hysbysu cleifion am ffioedd gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Canfuom fod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r broses ddadheintio yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.**

### **Gofal diogel**

#### **Cyfleusterau clinigol:**

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd y cyfleusterau toiled ar y llawr isaf wedi'u hadnewyddu ac roedd yn ymddangos eu bod wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd toiled neillryw hygyrch i'r cleifion. Gwnaethom ddweud wrth y practis y byddai gosod drws y toiled fel ei fod yn agor tuag allan yn sicrhau mynediad rhwydd mewn argyfwng.

Roedd y mannau ar y llawr daear wedi'u hadnewyddu ac roeddent yn olau ac yn awyrog. Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis, a chanfod bod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom fod y sêl ar hyd ymylon y wyneb gweithio wedi dod i ffwrdd yn ystafell driniaeth Moel-y-gest, a bod angen atgyweirio'r llawr lle'r oedd darn o offer wedi cael ei symud.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Mae angen gosod sêl ar hyd ymylon y wyneb gweithio ac mae angen atgyweirio'r llawr yn ystafell driniaeth Moel-y-gest er mwyn caniatáu glanhau effeithiol ac atal budreddi a llwch rhag casglu.***

Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi cael eu trefnu mewn modd tebyg i helpu nyrsys i weithio'n effeithiol mewn unrhyw fan. Roedd system effeithiol ar waith ar gyfer symud offer deintyddol wedi'u defnyddio o'r ystafell driniaeth i'r ystafell ddadheintio, a hynny mewn cynwysyddion wedi'u selio oedd wedi'u nodi'n fudr. Dychwelwyd offer mewn cynwysyddion glân addas. Roedd cyfarpar wedi'i becynnu wedi'i labelu a'i ddyddio'n glir.

Roedd tystysgrif archwilio diogelwch ar gael ar gyfer y peiriant a oedd yn darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), a gwelsom hefyd

fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd dyddiad y dystysgrif cynnal a chadw ar gyfer nwy o fewn ei dyddiad dod i ben hefyd. Roedd cyfarpar tân ar waith ac wedi cael ei wirio yn ddiweddar. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd brys.

Roedd ffeil lawn ar gael, a oedd yn cynnwys dalenni gwybodaeth yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd, ond nid oedd unrhyw asesiadau risg ar gyfer cemegion yn cael eu cadw ar y safle. Roedd y cemegion i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau dan glo. Fodd bynnag, roedd yr asesiadau risg yn dangos bod angen cymryd camau gweithredu ar unwaith o ran y mesurau rheoli presennol i atal anafiadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid rhoi asesiadau risg ar waith, ochr yn ochr â phob dalen wybodaeth, ar gyfer yr holl gemegion a gedwir yn y safle.***

Offer radiograffeg:

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (sganiau pelydr-X), er nad oedd y ddwy nyrs dan hyfforddiant wedi cwblhau eu hyfforddiant ar y pryd. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer diogelu cleifion a staff pan ddefnyddir peiriant pelydr-X llun eang a phanoramig (peiriant OPG) yn dderbyniol oherwydd ni chaniateir i unrhyw un fynd i lawr y coridor na defnyddio'r toiled sydd o fewn y parth rheoli pan fydd y peiriant yn weithredol. Fel arfer gorau, gwnaethom gynghori'r practis y byddai leinio'r wal bartisiwn â phlwm yn rhoi mwy o ddiogelwch.

Gwelsom dystiolaeth o gynnal archwiliadau diogelwch, o gynnal a chadw cyfarpar, ac o gynnal profion. Gwelwyd hefyd rheolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac ar y wal yn yr ystafell driniaeth.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerwyd yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd. Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad o'r broses o gynnal sganiau pelydr-X deintyddol yn 2015. Fodd bynnag, roedd yr archwiliad hwn yn un syml iawn. Yn unol â'r arfer gorau, gwnaethom hysbysu'r practis y dylid cynnal archwiliad manwl o leiaf bob blwyddyn, ac y dylid archwilio mwy o ffilmiau pelydr-X a chofnodi'r canlyniadau.

Cadw cyffuriau a chyfarpar argyfwng:

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i wneud dadebru cardio-pwlmonaidd, ac roedd dau aelod o'r tîm yn swyddogion cymorth cyntaf dynodedig. Fodd bynnag, gan fod un o'r swyddogion cymorth cyntaf dynodedig wedi lleihau nifer ei ddyddiau gweithio yn y feddygfa, pe byddai'r swyddog cymorth cyntaf arall ar wyliau, mae'n bosib na fyddai unrhyw swyddog cymorth cyntaf ar gael. Hysbyswyd y practis y byddai'n ddoeth i hyfforddi aelod arall o staff mewn cymorth cyntaf.

Roedd y Polisi Dadebru'n nodi bod 'angen hyfforddi pob aelod o'r staff'. Dylai gwybodaeth fanylach fod yn y polisi yn nodi swyddogaethau gwahanol y staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid diweddarau'r polisi dadebru i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn gwybod beth yw eu swyddogaethau pe bai argyfwng meddygol.***

Roedd y cyfarpar dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw yn yr ystafell ddadheintio, a byddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (llewyg) yn y practis. Roedd yn amlwg bod system ar waith er mwyn gwirio cyfarpar a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng bob wythnos. Fodd bynnag, gwelsom fod y pecyn cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cynnwys gel glwcos ar gyfer y geg a oedd yn hen. Roedd gel arall a oedd o fewn ei ddyddiad defnyddio wedi'i gadw yn yr oergell, ond gallai hyn fod wedi arwain at roi cyffur wedi dod i ben mewn argyfwng.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid rhoi system fwy effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod pan fod dyddiad cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar fin dod i ben.***

Dadheintio:

Mae gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd yr ardal i'w gweld yn lân, ac yn rhydd rhag annibendod. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a gweithdrefnau a oedd wedi'u hen sefydlu ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff. Gwelsom nad oedd sinc penodol ar gyfer golchi dwylo, ond roedd un o'r ddau sinc wedi'i neilltuo ar gyfer golchi dwylo, ac roedd powlen yn cael ei defnyddio i rinsio cyfarpar. Nid oedd y ddwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant wedi derbyn hyfforddiant mewn dadheintio ar y pryd. Yn unol â'r arfer gorau, gwnaethom gynghori'r practis y dylid gosod sinc golchi dwylo penodol, ac yn

rhan o'u hyfforddiant sefydlu, dylai staff newydd dderbyn hyfforddiant mewn dadheintio.

Dangosodd y practis dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau rhagorol wedi'i gynnal yn 2015. Roedd cynllun gweithredu manwl ynghlwm i ddangos pa gamau gweithredu a nodwyd a phryd y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodwyd yn ystod yr archwiliad wedi cael eu gweithredu. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru yn y dyfodol, gan mai dyma'r argymhelliad a nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).

Gwelsom fod tystysgrifau cynnal a chadw'r cyfarpar yn gyfredol. Roedd y practis yn cofnodi gwiriadau dyddiol ac wythnosol ar y peiriannau sterileiddio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn aros mewn cyflwr da a bod y broses ddadheintio'n effeithiol. Dylid cwblhau protocol dadheintio gyda chofnodion unigol.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid cwblhau protocol hyfforddiant dadheintio gyda chofnodion unigol.***

Gwaredu gwastraff:

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol a diogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â'r dull cywir o'i waredu. Roedd y rhain wedi eu storio mewn rhan o'r adeilad a oedd dan glo, cyn eu bod yn cael eu casglu.

Yn ystod ymweliad arolygu'r Gwasanaeth Atgyfeirio Deintyddol yn 2011, canfuwyd nad oedd unrhyw gynwysyddion gwastraff hylendid benywaidd. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u cymryd. Dywedodd y rheolwr gweithrediadau wrthym fod cynwysyddion hylendid benywaidd bellach wedi'u harchebu, a bod gwneud gwaith adnewyddu i'r cyfleusterau toiled ar gyfer y staff ar yr agenda hefyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid gosod cynwysyddion hylendid benywaidd yn y ddau gyfleuster toiled.***

## Diogelu

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y rhan fwyaf o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ond nid oedd y ddwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant na'r hylenydd wedi dilyn unrhyw hyfforddiant ar y pryd. Dywedwyd wrthym fod lle wedi'i gadw i'r hylenydd ar gwrs ym mis Mawrth.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai pob aelod o'r staff ddilyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.***

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Mae'r rheolwr clinigol a'r rheolwr gweithrediadau'n ymweld â'r practis yn rheolaidd, ac roeddem o'r farn eu bod yn hawdd mynd atynt ac y byddai'r staff yn barod i fynegi unrhyw broblemau iddynt.

## Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, ac archwiliadau radiograffig. Roedd y practis yn cael y cyfle i ofyn am gyngor a chymorth gan berchennog y practis. Caiff archwiliadau adolygu gan gymheiriaid eu defnyddio i ganfod tueddiadau. Nid oedd unrhyw ddull datblygu tîm yn cael ei ddefnyddio, ond dywedodd y rheolwr gweithrediadau eu bod yn bwriadu defnyddio dull sydd ar gael gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA). Gwnaethom gynghori'r practis i roi dull datblygu tîm ar waith, megis dull Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd, er mwyn i'r tîm deintyddol allu canolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio, ac er mwyn galluogi pawb yn y practis i ystyried ansawdd y gofal.

### Cofnodion cleifion:

Cafwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol, a oedd yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o 18 o gofnodion cleifion, a oedd yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan bob un o'r tri deintydd, a'r hylenydd a'r therapydd. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â'r dewisiadau o ran triniaethau, a

sut ceisiwyd caniatâd gan gleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth ar gyfer y rhan fwyaf o'r tîm.

Roedd y tîm deintyddol wedi newid eu meddalwedd cyfrifiadur y llynedd, ac roedd tystiolaeth o gofnodion da ar gyfer y gofal a thriniaeth a gynlluniwyd i gleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gydlofnodion i ddangos bod y deintydd wedi gwirio hanes meddygol y cleifion. Roedd yn amlwg bod y gwaith ysgrifennu nodiadau clinigol yn ardderchog ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth mewn rhai o'r cofnodion yn y nodiadau clinigol i ddangos y rhoddwyd cyngor ar roi'r gorau i ysmygu, y rhoddwyd dewisiadau o ran triniaethau, ac y derbyniwyd cydsyniad i driniaethau, ac nid oedd tri o'r pump o gofnodion cleifion a archwiliwyd ar gyfer un deintydd yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o gynllunio triniaethau.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Rhaid i'r holl nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o roi cyngor ar roi'r gorau i ysmygu, o roi dewisiadau o ran triniaethau, o dderbyn cydsyniad i driniaethau, ac o gynllunio triniaethau.***

Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X ar adegau priodol. Roedd ansawdd y sganiau pelydr-X yn cael ei fonitro, ond roedd pob sgan pelydr-X yn cael ei storio ar gyfrifiadur.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i gefnogi cofnodion cleifion er mwyn sicrhau dilyniant o ran gofal. Roedd y cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio cloadwy yn y garej.

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Mae'r practis wedi cael ei gynnal yn Heol yr Wyddfa ers 1997. Ers i Grŵp Deintyddol West End gymryd drosodd ym mis Awst 2014, bu rhaglen fuddsoddi sylweddol ac ehangwyd y cyfleusterau clinigol.

Cyfrifoldeb y rheolwr clinigol a'r nyrs arwain yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dempled rhaglen sefydlu, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o ffolderi wedi'u cwblhau ar gyfer hyfforddiant sefydlu. Mae pob aelod o'r staff yn cael defnyddio'r cyfrifiadur, sy'n cynnwys y polisiâu a gweithdrefnau, ac mae'r llawlyfr yn nodi bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn eu darllen. Mae'r gwaith o gynnal arfarniadau blynyddol eto i'w wneud ar gyfer y rhan fwyaf o'r tîm. Dim ond dystiolaeth o arfarniad diweddar ar gyfer yr uwch nyrs ddeintyddol a welsom. Gwelsom hefyd gofnodion cyfarfodydd staff rheolaidd (cyfarfodydd sefyll), lle rhoddwyd cyfle i'r holl staff roi sylwadau a gwneud awgrymiadau. Cafwyd dystiolaeth hefyd bod awgrymiadau yn cael eu gweithredu.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid rhoi arfarniadau blynyddol a rhaglen sefydlu ffurfiol ar waith.***

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd un aelod o'r tîm nyrsio wedi cwblhau'r cwrs llawn, ond nid oedd unrhyw gofnod o'i statws imiwnedd serwm. Roedd un o'r nyrsys deintyddol dan hyfforddiant eto i gwblhau'r cwrs imiweiddio llawn. Gwnaethom argymhell y dylid mynd ar drywydd hyn ac y dylid cadw cofnod o'r statws imiwnedd.

Gwnaethom edrych ar y polisiâu a'r gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu, a gweld dystiolaeth eu bod ar y cyfan yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol. Mae datganiad cyfrinachedd ar gael y mae pob aelod o'r staff yn ei lofnodi bob blwyddyn, ond nid oedd polisi wedi'i sefydlu i adlewyrchu hyn. Roedd angen cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch swyddogaethau'r staff yn y polisi dadebru.

Roedd angen adolygu'r polisi cwyno gan nad oedd yn cynnwys digon o fanylion ynghylch y gweithdrefnau, ac nid oedd yn nodi'r cyfnod ar gyfer ymateb i gwynion. Dylid hefyd cynnwys cyfeiriad a rhif ffôn AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid adolygu a diweddarau pob polisi er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir a digon o fanylion wedi'u cynnwys yn y polisi –y polisi dadebru a'r polisi cwyno yn benodol.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol West End yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>1</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>2</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

Yn ystod yr arolygiad, adolygom ddogfennau a gwybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

### Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol West End, Porthmadog

Dyddiad yr arolygiad: 16 Chwefror 2016

| Rhif y dudalen                | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                           | Rheoliad / Safon                                                       | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|------------------|------------------|----------|
| <b>Ansawdd Profiad y Claf</b> |                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                        |                  |                  |          |
| 7                             | Dylid cynnig deunydd hybu iechyd ar ffurf posteri a thaflenni yn y dderbynfa a'r mannau aros.                                                                                                                                        | Safonau lechyd a Gofal 1.1, 3.1, 4.1, 4.2, 5.1                         |                  |                  |          |
| 8                             | Dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"><li>Dylid sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cwynion yn cydymffurfio â gofynion Gweithio i Wella a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.</li></ul> | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, Adran 15 (4a) |                  |                  |          |

| Rhif y dudalen                             | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Rheoliad / Safon                                                       | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|------------------|------------------|----------|
|                                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cynnwys yr holl sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ac AGIC.</li> <li>Dylid nodi'n glir y gweithdrefnau a'r sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.</li> </ul> |                                                                        |                  |                  |          |
| <b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b> |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                        |                  |                  |          |
| 9                                          | Mae angen gosod sêl ar hyd ymylon y wyneb gweithio ac atgyweirio'r llawr yn ystafell driniaeth Moel-y-gest                                                                                                                                                                                                                                                      | Safonau lechyd a Gofal 2.9<br>CDC 1.5<br>Rheoliadau Gweithleoed d 1992 |                  |                  |          |
| 10                                         | Dylid gosod asesiadau risg wrth ymyl pob dalen wybodaeth ar gyfer pob cemegyn a gedwir ar y safle.                                                                                                                                                                                                                                                              | Safonau lechyd a Gofal                                                 |                  |                  |          |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                           | Rheoliad / Safon                                                               | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|------------------|------------------|----------|
|                |                                                                                                                                                      | 2.1                                                                            |                  |                  |          |
| 11             | Dylid diweddarau'r polisi dadebru i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod beth yw eu swyddogaethau pe bai argyfwng meddygol.                     | Safonau lechyd a Gofal 5.1<br>CDC 6.2.6, 6.6.6                                 |                  |                  |          |
| 11             | Dylid gweithredu system effeithiol i sicrhau bod aelodau'r staff yn gwybod pan fydd dyddiad cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar fin dod i ben. | Safonau lechyd a Gofal 2.6                                                     |                  |                  |          |
| 12             | Dylid cwblhau protocol hyfforddiant dadheintio gyda chofnodion unigol.                                                                               | WHTM 01-05<br>1.26-2.4o                                                        |                  |                  |          |
| 12             | Dylid gosod cynwysyddion hylendid benywaidd yn y ddau gyfleuster toiled.                                                                             | Rheoliadau Dyletswydd Gofal 1991<br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005 (Cymru) |                  |                  |          |
| 13             | Dylai pob aelod o'r staff dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.                                                    | Safonau lechyd a Gofal 2.7                                                     |                  |                  |          |

| Rhif y dudalen                             | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                | Rheoliad / Safon                                  | Camau gweithredu | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|------------------|------------------|----------|
|                                            |                                                                                                                                                                           | CDC 4.3.3, 8.5                                    |                  |                  |          |
| 14                                         | Dylai'r holl nodiadau clinigol gynnwys cyngor ar roi'r gorau i ysmygu, dewisiadau o ran triniaethau, cydsyniad i driniaethau, a chynlluniau triniaeth.                    | Safonau lechyd a Gofal 1.13.2, 4.1, 4.2, 5.1, 6.1 |                  |                  |          |
| <b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b> |                                                                                                                                                                           |                                                   |                  |                  |          |
| 15                                         | Dylid rhoi arfarniadau blynyddol a rhaglen sefydlu ffurfiol ar waith.                                                                                                     | CDC 6.6.1                                         |                  |                  |          |
| 16                                         | Dylid adolygu a diweddarau pob polisi er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir a digon o fanylion wedi'u cynnwys yn y polisi – y polisi dadebru a'r polisi cwyno yn benodol. | Safonau lechyd a Gofal 2.4, 2.7                   |                  |                  |          |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....